



Rôl rhiant-lywodraethwyr


Y Corff Llywodraethol (CLI) yw arweinydd strategol yr ysgol ac mae ganddo rôl hanfodol i'w chwarae wrth sicrhau bod pob plentyn yn derbyn y ddarpariaeth, y profiadau a'r canlyniadau addysgol gorau posibl. Adlewyrchir hyn yn y gyfraith, sy'n nodi mai pwrpas cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yw 'cynnal yr ysgol gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad ac ymddygiad addysgol'. Mae gan CLI ffocws cryf ar dair swyddogaeth graidd: darparu barn strategol, gweithredu fel ffrind beirniadol a sicrhau atebolrwydd.

Mae'r model rhanddeiliaid o lywodraethu ysgolion yn golygu bod ystod o gynrychiolwyr cymuned ehangach yr ysgol (fel rhieni, staff yr ysgol, ac aelodau o'r gymuned leol) yn rhan o redeg y corff llywodraethu yn effeithiol, ac yn cael llais yn y modd y mae eu hysgol yn gweithredu.



Etholir rhiant-lywodraethwyr gan rieni eraill yn yr ysgol. Mae unrhyw riant, neu ofalwr, disgybl cofrestredig yn yr ysgol adeg yr etholiad yn gymwys i sefyll mewn etholiad fel rhiant lywodraethwr. Gall rhiant-lywodraethwyr barhau i ddal eu swydd tan ddiwedd eu tymor mewn swydd hyd yn oed os yw eu plentyn yn gadael yr ysgol.

Rhaid i ysgolion wneud pob ymdrech resymol i lenwi swyddi gwag rhiant-lywodraethwyr drwy etholiadau. Mae'r Rheoliadau, fodd bynnag, yn gwneud darpariaeth i'r CLI benodi rhiant-lywodraethwyr lle nad oes digon o rieni'n sefyll mewn etholiad.



Mae rhiant-lywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig ar gyrff llywodraethu, gan fod gan rieni brofiad uniongyrchol o'r ysgol gan eu plentyn/plant. Mae hyn yn dod â safbwynt gwahanol i reolaeth strategol yr ysgol.

Caiff rhiant-lywodraethwyr eu hethol fel cynrychiolwyr o fuddiannau rhieni disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar y pryd. Maent yn rhieni cynrychiadol yn hytrach na chynrychiolwyr rhieni. Mae rhiant-lywodraethwyr yn mynegi eu barn bersonol yng nghyfarfodydd cyrff llywodraethu ac ni all y rhieni y maent yn eu cynrychioli eu gorfodi i gefnogi safbwynt penodol nad yw'r rhiant-lywodraethwr yn cytuno â hi.



Mae gan bob aelod o'r CLI statws cyfartal yn y cyfrifoldebau y maent yn eu rhannu (er bod eithriadau i'r cadeirydd); nid oes gan unrhyw lywodraethwr yr awdurdod i weithredu'n unigol ar ran yr ysgol, oni bai bod y CLI wedi gofyn i lywodraethwr gyflawni swyddogaeth.

Fel rhiant-lywodraethwr effeithiol, byddwch yn:

- helpu i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol
- gweithio mewn partneriaeth â'r pennaeth, uwch dîm arweinyddiaeth ac yn gydweithredol â llywodraethwyr eraill i godi safonau a gwella canlyniadau i bob plentyn
- mynychu cyfarfodydd llawn y corff llywodraethu a chyfarfodydd pwyllgor perthnasol yn rheolaidd a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd drwy ddarllen papurau ymlaen llaw
- cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu a'ch datblygiad eich hun fel llywodraethwr, gan gynnwys mynychu hyfforddiant
- hyrwyddo buddiannau'r ysgol yn y gymuned ehangach
- bod yn deyrngar i'r penderfyniadau a wneir gan y corff llywodraethu
- parchu cyfrinachedd materion cyrff llywodraethu
- peidiwch byth ag addo 'datrys problem' ar eich pen eich hun
- datgan buddiant a thynnu'n ôl o unrhyw gyfarfod lle rydych chi, partner, perthynas agos neu gydymaith busnes yn sefyll i ennill, neu lle rydych mor agos at fater a drafodwyd ei bod yn anodd bod yn ddiduedd.

Weithiau gall fod yn anodd cydbwysu eich rôl fel rhiant lywodraethwr diduedd a bod yn rhiant yn yr ysgol ar yr un pryd. Dyma gyngor ar sut i ymgymryd â'ch rôl yn effeithiol:

- Bod yn ymwybodol o farn rhieni ac unrhyw bryderon.
- Gwrando'n ddiduedd ar unrhyw bryderon a godir gan rieni a chynghori rhieni ar gamau gweithredu priodol e.e. dilyn y drefn ysgol gywir i ddatrys eu pryderon.
- Peidiwch â chymryd rhan yn bersonol mewn pryderon rhieni unigol.
- Peidiwch â dod â mater rhiant unigol (na'ch un chi) i gyfarfodydd y corff llywodraethu.
- Cofiwch, os oes gennych unrhyw pryderon eich hun fel rhiant yn yr ysgol, byddai angen i chi ddilyn yr un weithdrefn â rhieni eraill i ddatrys y rhain.
- Os oes rhyw agwedd ar fywyd ysgol sy'n peri pryder i nifer fawr o rieni, gofynnwch i'r cadeirydd/pennaeth a yw hwn yn bwnc priodol i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y corff llywodraethu.
- Help i godi proffil y gwaith pwysig y mae llywodraethwyr ysgol yn ei wneud – rydych yn offeryn recriwtio gwyh ar gyfer y rownd nesaf o ddarpar rhiant-lywodraethwyr!



▶ Ymrwymiad Amser

Disgwylir i lywodraethwyr fynychu holl gyfarfodydd y corff llywodraethu llawn (un y tymor), cyfarfodydd pwyllgor fel y bo'n briodol, yn ogystal ag ymweliadau ysgol. Er y bydd gennych wybodaeth dda o'r ysgol drwy brofiad eich plentyn, mae ymweliadau ffurfiol fel llywodraethwr yn rhan hanfodol o'ch rôl, yn enwedig mewn perthynas â monitro a gwerthuso. Yn aml gwahoddir llywodraethwyr hefyd i fynychu digwyddiadau ysgol, fel gwasanaethau a diwrnodau chwaraeon..



▶ Cyfrinachedd

Mae'n hanfodol bwysig bod pob llywodraethwr yn parchu cyfrinachedd y Corff Llywodraethol - byddech yn torri cyfrinachedd pe baech yn rhoi gwybod sut y mae unigolion wedi pleidleisio, sylwadau a wnaed gan unigolion, trafodaethau unigol neu pe baech yn rhannu gwybodaeth yn ymwneud ag aelodau unigol o staff, disgyblion neu faterion sensitif eraill.